

Partneriaeth Addysg Uwch ac Addysg Bellach ar Addysg Cyfrwng Cymraeg

Cyflwyniad

Ar 7 Awst 2013 yn yr Eisteddfod Genedlaethol, bu i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Cholegau Cymru arwyddo Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth gyda'r bwriad o ehangu ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg bellach yng Nghymru, a chreu cyfleoedd dilyniant i fyfyrwyr sydd am astudio drwy gyfrwng y Gymraeg o addysg bellach i addysg uwch.

Y Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth

Prif nodau'r Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth:

- Gwella llwybrau dilyniant cyfrwng Cymraeg a dweithog ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion ac addysg uwch
- Rhannu adnoddau dysgu ac addysgu
- Cefnogi anghenion datblygiad proffesiynol parhaus staff addysgu a staff cymorth yn y ddwy sector, a chyfrannu at rwydweithiau proffesiynol
- Cydweithio ar faterion polisi, cyfathrebu, marchnata a mentrau brandio.

Rhoi'r Memorandwm ar Waith

Dros y 12 mis y mae'r Memorandwm wedi bod wedi bod ar waith, bu i bum coleg lunio a dechrau gweithredu prosiectau peilot dan nawdd y Coleg Cymraeg gyda'r nod o wella llwybrau dilyniant.

Y pum coleg yw: Coleg Cambria, Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Penybont, Coleg Merthyr Tudful, a Choleg Sir Gâr.

Dyma flas o'r prosiectau:

Mae **Coleg Cambria** yn denu ac arwain myfyrwyr addysg bellach i ddilyn cyrsiau a modiwlau cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch ym maes Troseddeg, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas. Targedir myfyrwyr 16 i 19 oed sy'n astudio Lefel A yn ogystal â myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau galwedigaethol Iechyd a Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus.



Cyflwynir iddynt adnoddau perthansol, gwerth y Gymraeg fel sgil proffesiynol, ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg a chyngor ar wneud cais cyfrwng Cymraeg i UCAS.



Mae **Grŵp Llandrillo Menai** wedi targedu disgyblion Blwyddyn 12 a myfyrwyr galwedigaethol yn eu blwyddyn cyntaf yn y coleg.

Yng **Ngholeg Penybont**, mae'r ffocws wedi bod ar fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau Iechyd a Gofal, gan gynnwys Gofal Plant.



Mae **Grŵp Llandrillo Menai** a **Choleg Penybont** wedi mynd ati i ddarparu cyrsiau penodol sy'n paratoi myfyrwyr at gamu ymlaen at addysg uwch, gan gynnwys: sgiliau academaidd, sgiliau astudio, sgiliau ymchwil, a sgiliau cyflwyno dadlau academaidd. Mae pecynnau Cymraeg ar bapur ac arlein nawr ar gael.

Mae prosiect **Coleg Sir Gâr** yn ffocysu ar y maes Busnes, gyda dau fodiwl lefel 3 newydd cyfrwng Cymraeg yn cael eu paratoi. Bydd yr adnoddau newydd rhyngweithiol yn cael eu gosod ar lyfrgell y Porth, fel eu bod nhw ar gael i fyfyrwyr eraill ar draws Cymru. Disgwylir cynnydd pellach maes o law, gyda sawl cynllun datblygol arall dan trafodaeth.



Mae'r **Coleg Merthyr Tudful** wrthi'n trefnu deuddydd sy'n agored i fyfyrwr o holl golegau addysg bellach Cymru ar gampysau Prifysgol De Cymru yn ystod Hydref 2014, lle bydd darlithwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cyflwyno blas o addysg uwch cyfrwng Cymraeg ar draws sawl maes.



Oes y Memorandwm

Yn dilyn y flwyddyn gychwynnol (Awst 2013/14), mae'r Memorandwm nawr wedi ei ymestyn am dair blynedd arall.

Gwybodaeth bellach

ColegauCymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n cynrychioli'r holl golegau a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. www.colegaucymru.ac.uk

Cyswilt: Claire Roberts E: Claire.roberts@colegaucymru.ac.uk neu
Sylvia Davies E: sylvia.davies@colegaucymru.ac.uk T: 029 2052 2500

Mae'r **Coleg Cymraeg Cenedlaethol** yn sefydliad cenedlaethol sydd yn chwarae rhan allweddol mewn cynllunio, cynnal a datblygu addysg ac ysgolheictod cyfrwng Cymraeg yn ein prifysgolion. www.colegcymraeg.ac.uk

Cyswilt: Elin Williams E: E.Williams@colegcymraeg.ac.uk T: 0844 800 7375